

EGLURO AMODAU DEFNYDDIO LLETY I YMWELWYR YM MHRIFYSGOL ABERYSTWYTH

Mae Prifysgol Aberystwyth yn darparu'r lle perffaith am wyliau neu ddigwyddiad yn yr ardal a gallwn gynnig llety i ymwelwyr yn ystod gwyliau'r haf. Fodd bynnag, yn sgil natur ein llety a'r ffaith ein bod yn Brifysgol, mae ein telerau a'n hamodau rywfaint yn wahanol i rai darparwyr llety eraill. Caiff rhai o'r rhain eu hamlinellu isod er eich gwybodaeth a'ch cydsyniad, cyfeiriwch hefyd at yr Amodau Defnyddio Llety a Chyfleusterau i Ymwelwyr (Telerau ac Amodau) ym Mhrifysgol Aberystwyth, sydd wedi'u hatodi i'r ffurflen hon.

1. Gwybodaeth Gyffredinol am Lety

- a. **Enwau'r gwesteion** – bydd rhestr lawn o enwau'r deiliaid yn cael ei hanfon ymlaen i'r Swyddfa Gynadleddau o leiaf bedair wythnos cyn y dyddiad cyrraedd. Ni chaiff nifer yr unigolion sy'n aros yn y llety fod yn fwy na'r nifer a nodwyd ar y ffurflen archebu.
- b. **Deiliaid ystafelloedd** – at ddibenion gadael yr adeilad os bydd tân, ni chaniateir i westeion newid ystafelloedd gwely o fewn y llety heb ganiatâd o flaen llaw gan y Swyddfa Gynadleddau. Gwaherddir unrhyw unigolyn nad ydynt yn westeion cofrestredig rhag aros ar y Campws.
- c. **Plant** – nid ydym yn caniatáu i rai o dan 18 oed aros ar eu pen eu hunain yn ein llety (ac eithrio yn ystod Diwrnodau Agored neu Ddiwrnodau Ymweld lle byddwn yn darparu goruchwylwyr sydd wedi'u gwirio gan y CRB yn y llety). Mae'n rhaid i bob plentyn dros 2 oed aros yn eu hystafell wely sengl eu hunain. Ni ddylech adael plant ar eu pen eu hunain yn y llety neu fannau cyhoeddus ar unrhyw adeg. Ni chaiff plant aros mewn llety grŵp a rennir. Cysylltwch â'r Swyddfa Gynadleddau os hoffech gael eglurhad pellach.
- d. **Cotiau** – nid ydym yn darparu cotiau na dillad gwely ar gyfer cotiau. Caniateir uchafswm o un plentyn, o dan 2 oed, mewn cot teithio ym mhob ystafell; holwch oherwydd nid yw rhai o'r ystafelloedd gwely yn addas ar gyfer cotiau.
- e. **Gofynion arbennig** – os oes gennych chi, neu unrhyw aelod o'ch grŵp, unrhyw ofynion arbennig neu feddygol, cysylltwch â'r Swyddfa Gynadleddau i gael cyngor cyn archebu.

2. Gwybodaeth ynglŷn â Chyrraedd a Gadael

- a. **Casglu'r allwedd / Cofrestru** – gallwch gofrestru o 3yp ar y diwrnod cyrraedd a chasglu'r allwedd i o'r Swyddfa Llety yn Fferm Penglais rhwng 3yp a 6yp o ddydd Llun i ddydd Gwener ac o Dderbynfa'r Prif Gampws y tu allan i'r oriau hyn. Mae'n bosib y gofynnir i westeion ddangos dull adnabod dilys wrth iddynt gofrestru. Anfonir map sy'n dangos lleoliadau'r derbynfeydd at westeion cyn iddynt gyrraedd.
- b. **Gadael yr Allwedd / Gadael** – rhaid gadael erbyn 9yb ar y diwrnod gadael a dylid dychwelyd yr allwedd i Dderbynfa'r Prif Gampws cyn 8.30yb ac i'r Swyddfa Llety ar ôl hyn.
- c. **Cyrraedd yn gynnar/gadael yn hwyr** – trwy drefniant yn unig, mae'n rhaid talu am hyn.
- d. **Methu â gadael** – os byddwch chi, neu unrhyw aelod o'ch grŵp, yn methu â gadael y llety neu ran ohono erbyn yr amser a nodwyd, bydd y Brifysgol yn codi tâl arnoch am noson arall. Mae methu â gadael yn cynnwys unrhyw unigolion yn eich grŵp yn aros yn y llety a/neu'n gadael nwyddau a/neu eiddo personol yn y llety.

3. Defnydd Derbyniol

- a. **Is-osod** – ni ddylai'r cwsmer is-osod y llety neu unrhyw ran ohono neu drosglwyddo budd y cytundeb hwn.
- b. **Diben** – ni ddylid defnyddio'r adeiladau at unrhyw ddibenion heblaw'r rhai y cytunwyd arnynt gan y Brifysgol wrth logi'r llety. Ni fydd y cwsmer yn ymwneud ag unrhyw weithgareddau sy'n debygol o ddwyn anfri ar enw da'r Brifysgol. Peidiwch â chynnal unrhyw weithgareddau sy'n newid cyflwr y llety, megis symud adnoddau neu eitemau, heb ganiatâd y Brifysgol.
- c. **Ymddygiad** – byddwch yn ymwybodol y bydd preswylwyr eraill yn aros ar y Campws yn ystod eich cyfnod yma. Ni ddylech wneud unrhyw beth yn yr adeiladau, neu ymarfer yr hawliau, mewn unrhyw ffordd a fyddai'n achosi difrod i'r adeiladau neu niwsans, anfodlonrwydd, aflonyddwch, anghyfleustra, anaf neu ddifrod i'r Brifysgol neu berchnogion neu ddeiliaid yr adeiladau cyfagos.
- d. **Teclynnau cegin** – ni chaniateir i chi orchuddio platiau poeth na gadael i'r poptai weithredu am gyfnodau hir, neu dros nos, oherwydd mae'n achosi perygl tân.
- e. **Tafu nwyddau ieuchydol** – ni chaniateir i chi gael gwared ar nwyddau ieuchydol, megis clytiaau a hancesi gwlyb, ac eitemau perthnasol yn system y toiledau, oherwydd bydd hyn yn achosi difrod i'r draeniau.

4. Cyfleusterau

- a. **Storfa fagiâu** – ni allwn ddarparu cyfleusterau storio bagiau ar ôl 10yb ar y diwrnod gadael.
- b. **Wi-Fi** – mae'n bleser gennym ddarparu Wi-Fi yn rhad ac am ddim i ymwelwyr trwy 'Y Cwmwl' – rhaid cofrestru ar lein.

- c. **Cymorth cyntaf** – nid yw'r Brifysgol yn darparu cymorth cyntaf i westeion preswyl, byddwch yn ymwybodol o leoliad yr uned ddamweiniau ac achosion brys a'r feddygfa agosaf (ar Riw Penglais o fewn hanner milltir) a rhoi'r manylion hyn i unrhyw aelodau o'r grŵp.
- d. Cewch **barcio eich car** yn rhad ac am ddim ym meysydd parcio'r Campws, oni bai ein bod yn nodi'n wahanol. Byddwch yn cael tocyn parcio ymwelwyr gyda'ch cyfarwyddiadau cyrraedd trwy wneud cais, gwnewch yn siŵr bod y tocyn parcio i'w weld ar ddangosfwrdd eich cerbyd bob amser pan fyddwch wedi parcio mewn meysydd parcio a reolir gan y Brifysgol.
- e. Gallwch **ddefnyddio'r cyfleusterau**, os cynigir hynny, megis y pwll nofio, ac ati; ond eich cyfrifoldeb chi ydyw ac ni all y Brifysgol dderbyn unrhyw gyfrifoldeb. Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod arall mewn cysylltiad â defnyddio cyfleusterau o'r fath.
- f. **Ardaloedd cyffredin** – gofynnir i ymwelwyr barchu gwsteion eraill. Dylai ardaloedd cyffredin megis ceginau, cynteddau a grisiau gael eu cadw'n lân a heb eu gorlenwi.

5. Iechyd a Diogelwch

- a. **Mynediad** – mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i fynd i mewn i ystafell heb rybudd os bydd argyfwng. Efallai y bydd angen mynediad ar gyfer gwaith cynnal a chadw yn ystod oriau gwaith arferol a byddwn yn rhoi rhybudd o flaen llaw am hyn.
- b. **Diogelwch Safle** – mae'r Brifysgol yn darparu Gwasanaeth Diogelwch ymatebol i holl Neuaddau'r Brifysgol, o Dderbynfa'r Campws ar Gampws Penglais. Mae ein gwasanaeth diogelwch yn cynnwys patrolau crwydro 24/7 awr sy'n patrolio'r ardaloedd preswyl i gyd yn rheolaidd. Os byddwch angen gwneud unrhyw drefniadau pwrpasol yn ychwanegol at hyn, gwnewch gais o leiaf dri mis cyn yr ymweliad. Bydd yr holl drefniadau ychwanegol yn amodol ar gostau.
- c. **Gadael yr adeilad pan fydd tân** – cyfrifoldeb yr unigolyn neu arweinydd y grŵp yw sicrhau bod yr holl westeion yn ymwybodol o'r llwybrau i adael yr adeilad a'r gweithdrefnau sydd wedi'u nodi ar gefn drws mynediad pob ystafell wely.

6. Dychwelyd y llety

Dylai'r holl eiddo, dodrefn a gosodiadau perthnasol gael eu dychwelyd yn yr un cyflwr ag yr oeddent, ac ni ddylid symud unrhyw ddodrefn neu osodiadau o'r llety ar unrhyw adeg. Mae hyn yn cynnwys:

- Mynd ag unrhyw becynnau o fwyd wedi'u hagar a thynnu bwydydd ffres o'r oergelloedd.
- Gadael y gegin a'r ystafelloedd ymolchi mewn cyflwr da.
- Gadael y tu mewn a'r ardaloedd tu allan yn daclus.
- Mynd ag unrhyw eitemau personol gyda chi.
- Cael gwared ar yr holl sbwriel yn y biniau a ddarperir.

7. Amrywiol

- a. **Anifeiliaid anwes** – ni chaniateir anifeiliaid anwes yn unrhyw eiddo ar unrhyw adeg, ar wahân i gŵn tywys cofrestredig.
- b. **Post** – ni all y brifysgol dderbyn post ar ran gwsteion preswyl.
- c. Cyfrifoldeb y perchnogion yw gadel eu **cerbydau** a'u hatgolion a'u cynnwys.
- d. **Yswiriant** – Rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn trefnu yswiriant ar gyfer costau canslo a risgiau eraill gan gynnwys damwain bersonol ac atebolrwydd cyhoeddus personol.
- e. **Derbyn archebion** – mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i wrthod archebion yn ôl ei disgrisiwn.

8. Cymal terfyniad

Os nad ydych yn cydymffurfio â'r telerau a'r amodau hyn pan fyddwch yn aros yn ein llety, efallai y byddwn yn terfynu eich archeb a bydd gofyn i chi a'ch gwsteion adael ar unwaith, heb unrhyw ad-daliad ar gyfer yr arian a dalwyd.

Rydym yn cadw'r hawl i newid y telerau a'r amodau hyn

Mae Amodau Defnyddio Llety a Chyfleusterau ym Mhrifysgol Aberystwyth ac Asesu Risg PA sy'n amgaaedig hefyd yn berthnasol.